
Hawdd ei Ddeall



# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Beth ydych chi'n feddwl am ein cynlluniau newydd ar gyfer cadw pobl yn ddiogel

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 - 2029**'.

**Hydref 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm**. yn gallu bod yn anodd eu deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 31**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.tangogleddcymru.llyw.cymru

**Ffôn:** 01745 535 250

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247.**

# Cynnwys

Am y cynllun yma ........ 4

Gogledd Cymru ........ 8

Y risgiau yng Ngogledd Cymru ........ 14

Ein 5 egwyddor ........ 16

Ein costau ........ 29

Am ein gwerthoedd ........ 30

Geiriau anodd ........ 31

# Am y cynllun yma




Mae'r cynllun yma yn cael ei alw yn **Gynllun Rheoli Risg Cymunedol**.



Y nod ydy dangos y risgiau i'n cymunedau. A disgrifio sut fyddwn ni yn delio â'r risgiau hynny. Er enghraifft, tanau, llifogydd a damweiniau traffig ar y ffyrdd.



Mae pob gwasanaeth tân ac achub yn y Deyrnas Unedig yn gwneud cynlluniau newydd. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni yn gallu gweithio yn well gyda'n gilydd.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y cynllun yma. Cyn i ni gyhoeddi fersiwn derfynol.



**Darllenwch drwy'r cynllun yma os gwelwch yn dda. Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.**

**Rydych chi hefyd yn gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl wrth:**




**Llenwi ffurflen ar-lein**: https://forms.office.com/e/j9VqEzyRDc?origin=lprLink




**Trwy ein gwefan**: www.tangogleddcymru.llyw.cymru



**Ffôn**: 01745 535250



**Neu rydych chi'n gallu ysgrifennu atom yn:**

Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub

Ffordd Salesbury,

Parc Busnes Llanelwy


Llanelwy

Sir Ddinbych

LL 17 0JJ




**Rhowch eich sylwadau i ni erbyn**: 14 Rhagfyr 2025




Fe fyddwn ni yn edrych ar beth mae pawb yn ei ddweud. Yna fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad.



Fe fyddwn ni yn siarad am yr adroddiad gyda'n haelodau. Fe fydd hyn mewn cyfarfod ar: **20 Ebrill 2026.**




Fe fydd y cynllun newydd yma yn cychwyn Haf 2024 ac yn parhau tan 2029.




Bob blwyddyn, fe fyddwn ni yn gwneud cynllun gweithredu. Fe fydd hyn yn dangos os ydyn ni yn cyflawni'r nodau yn y cynllun yma.



## Gofyn am archwiliad diogel ac iach

Os ydych chi eisiau i ni wneud archwiliad o'ch cartref, cysylltwch â ni ar **0800 169 1234.**

Dilynwch ni:

@northwalesfire

www.facebook.com/northwalesfireservice


@northwalesfire

@nwalesfireservice

# Gogledd Cymru




Un o’r problemau sydd gennym ni ydy cael digon o staff. Mewn rhai rhannau o ogledd Cymru does dim digon o staff.



Rydyn ni yn gweithio’n galed i wneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o staff.



Mae tua 687 mil o bobl yn byw yng Ngogledd Cymru.



Mae 6 sir yng Ngogledd Cymru. Dyma nhw:

- Ynys Môn
- Gwynedd
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Wrecsam

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru



Mae gennym ni 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru.





Mae gennym ni 53 o beiriannau tân.



Mae gan rai gorsafoedd gerbydau eraill. Er enghraifft, cychod. Mae'n dibynnu ar y risgiau ar gyfer yr ardal honno.



Mae'n rhaid i ni symud ein diffoddwyr tân o gwmpas Gogledd Cymru. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni yn gallu cyrraedd ardaloedd yn gyflym.



Mae diffoddwyr tân yn y gorsafoedd yma 24 awr y dydd:

- Y Rhyl
- Wrecsam
- Glannau Dyfrdwy



Mae gan rai gorsafoedd ddiffoddwyr tân yno yn ystod y dydd. A system ar-alwad 24 awr y dydd.



Mae’r holl alwadau am wasanaethau tân ac achub yn cael eu rheoli gan 1 ganolfan. Mae’r ganolfan yma yn Llanelwy.



Mae yna dimau eraill o staff sy’n cefnogi’r gwasanaeth.


# Ein gwasanaeth a'r gyfraith




Mae'n rhaid i ni ddilyn llawer o ddeddfau i redeg y gwasanaeth Tân ac Achub yn dda.




Mae rhai o'r cyfreithiau yma yn ymwneud â thân ac iechyd a diogelwch.




Ond mae yna gyfreithiau eraill mae'n rhaid i ni feddwl amdanyn nhw hefyd. Er enghraifft, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.




Mae'r ddeddf yma yn meddwl bod rhaid i ni feddwl am anghenion pobl Gogledd Cymru. A sut fydd ein cynlluniau a'n penderfyniadau yn effeithio ar bobl nawr ac yn y dyfodol.

# Y problemau rydyn ni wedi delio â nhw



Rydyn ni wedi edrych ar yr holl sefyllfaoedd rydyn ni wedi ymateb iddyn nhw. Rydyn ni wedi defnyddio'r wybodaeth yma  i'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.



Er enghraifft, rydyn ni wedi ymateb i dros 5,000 o sefyllfaoedd bob blwyddyn.



Mae tua 1,800 o'r rhain wedi bod yn danau.



Mae ychydig dros 350 wedi bod yn ddamweiniau traffig ar y ffyrdd.



Roedd yna tua 24 o danau gwyllt. Mae'r rhain yn danau heb eu cynllunio neu diangen mewn ardaloedd awyr agored. Fel mewn coedwig neu ar dir glaswelt.



Rydyn ni hefyd wedi gwneud dros 19,000 o archwiliadau diogelwch.



# Y risgiau yng Ngogledd Cymru



Rydyn ni wedi edrych ar lawer o wybodaeth i gael gwybod am risgiau yng Ngogledd Cymru.



Rydyn ni wedi edrych ar risgiau i bobl, lleoedd a chymunedau.



Rydyn ni wedyn wedi edrych ar sut fyddwn ni yn rheoli'r risgiau hynny.




Un ffordd o reoli risgiau'n dda ydy gweithio gyda sefydliadau eraill. Er enghraifft, gwasanaethau brys eraill, fel ambiwlansys.



Rydyn ni yn rhan o grŵp o'r enw Fforwm Lleol Gogledd Cymru. Mae'r grŵp yma yn ein helpu ni i baratoi ar gyfer sefyllfaoedd brys.

**Dyma rai o'r risgiau i'n hardal:**



- Twristiaeth – Mae twristiaeth yn bwysig iawn i Ogledd Cymru. Ond mae mwy o ddamweiniau traffig pan mae mwy o dwristiaid.



- Tanau yng nghartrefi pobl a mannau eraill.



- Tanau gwyllt.

- Damweiniau traffig ffordd.



- Llifogydd.



- Boddi.



- Tanau o dechnoleg newydd. Er enghraifft, beiciau trydan.

# Ein 5 egwyddor




Mae ein **5 egwyddor** yn meddwl y 5 peth sy'n **bwysig** i ni.


Hawdd ei Ddeall

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Beth ydych chi'n feddwl am ein cynlluniau newydd ar gyfer cadw pobl yn ddiogel

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 - 2029**'.

**Mawrth 2024**

Mae'r cynllun yma wedi ei seilio ar ein **5 egwyddor**.





# 1. Pobl - mae hyn yn meddwl ein bod yn gwneud yn siŵr bod ein staff wedi'u hyfforddi'n dda. a'u bod nhw yn y lle iawn ar yr amser iawn.

**Beth rydyn ni wedi ei wneud:**



Rydyn ni wedi gwneud hyfforddiant i wella sgiliau staff.



Rydyn ni wedi cyflogi staff o wahanol gefndiroedd.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:



Fe fyddwn ni yn rhoi 2 arolwg i staff er mwyn i ni gael gwybod beth maen nhw'n feddwl. **Arolygon Staff Teulu Tân** ydy enw'r arolygon.



Fe fyddwn ni yn gwrando ar beth mae staff wedi ei ddweud yn yr arolygon.



Fe fyddwn ni yn parhau i edrych i weld ein bod yn cyflogi pobl o wahanol  gefndiroedd.



Fe fyddwn ni yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau. A rhoi amrywiaeth o hyfforddiant iddyn nhw.




Fe fyddwn ni yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn fwy ac mewn ffyrdd gwell.




Fe fyddwn ni yn ysgrifennu achos busnes am ganolfan hyfforddi newydd. Mae hwn yn ddogfen sy’n egluro’r rhesymau pam rydym angen canolfan hyfforddi newydd.



Mae angen i ni gefnogi staff yn eu hyfforddiant a’u llesiant.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr ein bod yn gwella ein gwasanaethau.



# 2. Stopio – mae hyn yn meddwl ein bod yn edrych ar risgiau. Yna yn ceisio eu stopio rhag digwydd.

**Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn:**



Rydyn ni wedi gweithio gyda sefydliadau lleol.



Rydyn ni wedi gwneud rhaglenni diogelwch gyda phobl.



Rydyn ni wedi cefnogi pobl i ddysgu am ddiogelwch tân.




Rydyn ni wedi rhoi gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud:



Fe fyddwn ni yn gwneud mwy o waith i helpu i stopio tanau i bobl dros 65 oed. Oherwydd bod mwy o danau yn y grŵp oedran yma.



Fe fyddwn ni yn cynyddu nifer yr archwiliadau diogelwch rydyn ni yn eu gwneud yng nghartrefi pobl.




Fe fyddwn ni yn rhoi cyngor am ddiogelwch ar y ffyrdd.



# 3. Amddiffyn – mae hyn yn meddwl ein bod yn rhoi cyngor i fusnesau am stopio tanau

**Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn:**



Rydyn ni wedi cynnal sesiynau diogelwch tân ar gyfer busnesau.



Rydyn ni wedi gwneud archwiliadau ar adeiladau risg uchel.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud:**



Fe fyddwn ni yn edrych ar y system sydd gennym ni nawr i edrych am risgiau. A gwneud yn siŵr ei fod yn ddigon da.



Fe fyddwn ni yn parhau i wneud archwiliadau risg i fusnesau.



Fe fyddwn ni yn gweithio gydag eraill i leihau tanau gwyllt.



# 4. Ymateb - mae hyn yn meddwl ein bod yn barod i ymateb pan fydd pobl ein hangen

**Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn:**



Rydyn ni  wedi ceisio gwella ein hymateb mewn ardaloedd gwledig. Mae ardaloedd gwledig yn meddwl cefn gwlad.



Rydyn ni wedi gwneud gwaith i helpu i gadw staff rhag gadael.



Rydyn ni wedi gweithio i wneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o ddiffoddwyr tân.



Rydyn ni wedi prynu offer diogelwch gwell.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud:**



Edrych i weld fod gennym ni ddigon o staff ar gyfer y gwasanaeth.



Rhoi system gyfrifiadurol newydd ar waith i helpu i reoli argyfyngau yn dda.



Fe fyddwn ni yn parhau i hyfforddi staff.



Fe fyddwn ni yn parhau i wneud yn siŵr bod gan staff yr offer diogelwch gorau.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod gorsafoedd tân yn cael eu rhedeg yn dda.



Fe fyddwn ni yn newid peiriannau tân gyda rhai newydd dros amser.



# 5. Amgylchedd – mae hyn yn meddwl ein bod yn meddwl am ofalu am yr amgylchedd yn ein holl waith.




Mae’r **amgylchedd** yn meddwl natur a’r byd o’n cwmpas.

**Dyma beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn:**



Nawr mae gennym **reolwr amgylcheddol a newid hinsawdd**. Eu gwaith nhw ydy meddwl am sut rydyn ni’n gofalu am yr **amgylchedd** yn ein gwaith.




Mae gennym ni gynllun o’r enw **Strategaeth Amgylcheddol**. Cynllun ydy hwn i’n helpu ni i roi’r gorau i wneud niwed i’r **amgylchedd**.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud:**



Fe fyddwn ni yn newid y math o danwydd rydyn ni yn ei ddefnyddio yn ein cerbydau. Fe fydd hyn yn well i'r **amgylchedd**.



O 2025 ymlaen, dim ond cerbydau ag **allyriadau isel** fyddwn ni yn eu prynu. Mae **allyriadau isel** yn golygu cerbydau fel faniau a pheiriannau tân sy'n cynhyrchu llai o garbon deuocsid. Felly mae'n achosi llai o niwed i'r **amgylchedd**.



# Ein costau



Rydyn ni yn cael arian gan gynghorau lleol Gogledd Cymru. Ac oddi wrth Lywodraeth Cymru.




Mae’r arian sydd gennym ni ar gyfer 2024 i 2025 ychydig dros 48 miliwn o bunnoedd.



Mae ein costau mwyaf ar gyfer staff. Roedd y gost yma tua £30 miliwn y flwyddyn diwethaf.

# Am ein gwerthoedd

**Rydyn ni yn credu yn:**




**Ein pobl**– Rydyn ni yn gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael eu gwerthfawrogi. Rydyn ni yn cefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau.



**Ein cymunedau** - Y peth mwyaf pwysig i ni ydy bod ein cymunedau'n ddiogel ac yn iach.



**Amrywiaeth a chynhwysiant** – Rydyn ni eisiau i bobl o bob cefndir weithio i ni. Rydyn ni eisiau bod yn deg a chynnwys pawb yn y gwaith.



**Ein dysgu** - Rydyn ni eisiau bod y gorau ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n gallu gwneud hyn drwy gael adborth gan eraill, dysgu o brofiad, a datblygu ein sgiliau.

# Geiriau anodd

**Amgylchedd**

Mae'r amgylchedd yn meddwl natur a'r byd o'n cwmpas.

MEWN·CYFYNGDER Y·GELWAIST